Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

**Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018-19



# RHAGAIR

Ers ei sefydlu yn 2014, mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau clir i gyflwyno gwell gwasanaeth mabwysiadu yng Nghymru. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn (2018/19) yn myfyrio ar gyflawniadau ac yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol i barhau i wella'r gwasanaeth i blant a mabwysiadwyr.

Mae mynd at i wrando ar fabwysiadwyr a phlant wedi dylanwadu ar sut mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi esblygu a datblygu i gyflawni newid a gwasanaethau da. Mae tystiolaeth bod llawer o fabwysiadwyr a'u plant yn gweld manteision amlwg y gwelliannau er ein bod yn cydnabod bod mwy i'w wneud.

Erys gwelliant parhaus yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth a ddarperir drwy'r Tîm Canolog, Gwasanaethau Mabwysiadu Llywodraeth Leol Ranbarthol ac Asiantaethau'r Sector Gwirfoddol. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi creu gweledigaeth gyffredin, blaenoriaethau, strategaethau a gwasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Rydym yn falch iawn o gymryd y cyfle hwn i ddiolch i fabwysiadwyr, staff ym mhob asiantaeth yng Nghydweithrediad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol am eu gwaith caled a'u hymroddiad.

Rydym hefyd wrth ein bodd bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod pecyn buddsoddi o £2.3m ar gael o 2019/20 a fydd yn ein galluogi i symud ymlaen ar flaenoriaethau gwella y cytunwyd arnynt ar gyfer y dyfodol agos.

Gwnaed llawer o gynnydd ers sefydlu'r Gwasanaeth, ond mae anghenion plant yng Nghymru yn parhau i fynnu ymateb cyflymach a mwy craff i raddfa a chymhlethdod yr her. Mae'r GMC yn uchelgeisiol o ran y rôl y gallwn ei chwarae i ymateb i'r her honno.



**Phil Hodgson**
Cadeirydd Annibynnol y Grŵp Cynghori



**Y Cyng. Geraint Hopkins**
Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethu



**Suzanne Griffiths**
Cyfarwyddwr

# CYFLWYNIAD

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru yn gydweithrediad sy'n darparu gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru.

Ers mis Tachwedd 2014, mae wedi dwyn ynghyd holl wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol i greu pum menter gydweithredol ranbarthol, gyda Chyfarwyddwr a thîm canolog bach yn cydlynu ac yn arwain. Mae asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol sy'n gweithredu yng Nghymru yn bartneriaid allweddol yn y maes cydweithredu, yn yr un modd ag y mae asiantaethau eraill fel iechyd ac addysg.

## TÎM CANOLOG

**Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol – Tîm Canolog**
c/o Cyngor Dinas Caerdydd,
Ystafell 409, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd, CF10 4UW
029 2087 3927
contact@adoptcymru.com
www.adoptcymru.com/cy/home

## GOGLEDD CYMRU

Ynys Môn, Gwynedd, Conwy,
Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam

**Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru**
3ydd Llawr, Stryd Lambpit,
Wrecsam, LL11 1AR
01978 295311
adoption@wrexham.gov.uk
www.northwalesadoption.gov.uk/cy

## CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Ceredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin,
Sir Benfro

**Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru**
Adeilad 1, Parc Dewi Sant, Tre Ioan,
Sir Gaerfyrddin, SA31 3HB
01267 246970
adoptionenquires@carmarthenshire.gov.uk
www.mabwysiaducgcymru.org.uk

Neuadd Brycheiniog, Ffordd Cambrian,
Aberhonddu, Powys, LD3 7HR
01597 827666
adoptionenquiries@carmarthenshire.gov.uk
www.mabwysiaducgcymru.org.uk

## BAE'R GORLLEWIN

Abertawe, Castell-nedd Port Talbot,
Pen-y-bont ar Ogwr

**Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin**
Canolfan Ddinesig Port Talbot,
Port Talbot CF131PJ
0300 365 2222
enquires@westernbayadoption.org
www.westernbayadoption.org

## Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD

Merthyr Tydfil, Rhondda Cynon Taf,
Cardiff, Vale of Glamorgan


**Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd**
Llawr 1af, Swyddfa'r Doc,
Heol yr Isfford, Y Barri CF63 4RT
0800 0234 064
adoption@valeofglamorgan.gov.uk
www.adopt4vvc.org

## DE DDWYRAIN CYMRU

Sir Fynwy, Blaenau Gwent,
Torfaen, Caerffili, Casnewydd

**Gwasanaeth Mabwysiadu Deddwyrain Cymru**
Adain y Gogledd, 2il Lawr Bloc B,
Tŷ Mamhilad, Stad Parc Mamhilad,
Pont-y-pŵl, Torfaen, NP40HZ
01495 355766
adoption@blaenau-gwent.gov.uk
www.blaenau-gwent.gov.uk/3122.asp

## POB GWIRFODDOL CYMRU WASANAETHAU ASIANTAETHAU MABWYSIADU




**AFA Cymru**
c/o Plant yng Nghymru,
25 Plas Windsor, Caerdydd, CF10 3BZ
029 2076 1155

W2 Canolfan Fusnes Morfa Clwyd,
84 Marsh Road, Rhyl LL18 2AF

Info-afa@stdavidscs.org
www.afacymru.org

**Adoption UK**
Stiwdios Penhaved, Penhaved Street,
Grangetown, Caerdydd, CF117LU
029 2023 0319
www.adoptionuk.org

**Barnardo's Cymru**
Cwrt Trident, East Moors Road,
Caerdydd, CF245TD
0800 0546 788
cymruadoptionandfosteringservice@barnardos.org.uk
www.barnardos.org.uk/adoption

**Cymdeithas Plant Dewi Sant**
28 Plas-y-parc, Caerdydd, CF10 3BA
029 2066 7007
info@stdavidscs.org
www.adoptionwales.org

# PUM MLYNEDD YN DDIWEDDARACH

## Dathlu ein cyflawniadau a chroesawu'r heriau



Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) wedi bod yn gweithio am bum mlynedd i greu canlyniadau gwell i'r plant hynny y gwelwyd mai mabwysiadu yw'r cynllun gorau iddynt.

Cafodd ei sefydlu yn 2014 mewn ymateb i Ymchwiliad gan y Cynulliad Cenedlaethol trwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Ei rôl yw gweithio mewn ffordd gydweithredol ac unigryw i wella a chydlynu gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir ledled Cymru ac yn arbennig:

- Codi proffil mabwysiadu;
- Gwella graddfeydd amser i blant a'r rheiny sy'n mabwysiadu;
- Gwella cymorth mabwysiadu yn cynnwys newid y 'loteri cod post' am wasanaethau; a
- Darparu arweinyddiaeth i hyrwyddo gwasanaethau a safonau mwy cyson.

Mae'r rôl y mae mabwysiadu yn ei chwarae mewn cymdeithas yn parhau i newid; mae deddfwriaeth yn parhau i newid i adlewyrchu hyn. Yr hyn sydd heb newid yw bod plant na allant aros gyda'u teulu biolegol, angen teuluoedd parhaol, i berthyn iddynt, i'w magu a'u caru. Mae gwasanaethau mabwysiadu yn darparu teuluoedd i'r plant hyn yn ogystal â gwasanaethau a chymorth i rieni sy'n mabwysiadu, rhieni biolegol ac eraill y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt.

Eleni mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn dathlu ei bumed flwyddyn ac mae'n ddeng mlynedd ar hugain ers i'r DU gymeradwyo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn ceisio sicrhau newidiadau cadarnhaol i blant y mae angen iddynt gael eu mabwysiadu er eu pennaf les, fel y gallant wireddu eu hawliau o dan y confensiwn.

## RHAI O'N CYFLAWNIADAU DROS Y PUM MLYNEDD DIWETHAF

- Llwyddo i godi proffil mabwysiadu ymhlith y cyhoedd, cyllidwyr a llunwyr polisïau.
- Cael hyd i gyllid ychwanegol; grant datblygu o £90k gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, £125k o fuddsoddiad wedi'i dargedu yn 2017/18 a buddsoddiad o £2.3m ar gyfer cymorth mabwysiadu i ddechrau yn 2019/20.
- Gwella perfformiad yn y meysydd allweddol, sef cymeradwyo mabwysiadwyr a lleoli plant yn gyflymach, ochr yn ochr ag ymwreiddio diwylliant o berfformiad a gefnogir drwy werthuso ac adrodd yn rheolaidd.
- Cynyddu'r deunyddiau taith bywyd sydd ar gael trwy ddull arfer gorau, newydd.
- Datblygu sut rydym yn gwrando ar fabwysiadwyr a'u plant a sicrhau bod eu negeseuon a'u mewnbwn yn gwneud gwahaniaeth i'r gwasanaeth.
- Creu pum cydweithrediad mabwysiadu rhanbarthol fel y ffocws ar gyfer arbenigedd mabwysiadu ar lefel llywodraeth leol a phwynt mynediad i wasanaethau.
- Datblygu a chynnal partneriaeth gref gydag Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol Cymru. Fe wnaeth hyn ychwanegu gwerth, arbenigedd gwahanol, gwasanaethau ychwanegol a mwy o ddewis, gan arwain at wasanaethau newydd cyffrous fel y Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd, TESSA a gwasanaeth newydd i Blant a Phobl Ifanc.
- Comisiynu a datblygu gwefan Cymru gyfan, sydd bellach yn darparu ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth i rieni ac asiantaethau.
- Dod â Chofrestr Mabwysiadu Cymru i'r gwasanaeth, gan roi dewis eang i ddarpar rieni a phlant.
- Llunio cynlluniau strategol, sydd nid yn unig yn amlinellu pa welliannau sydd eu hangen ond sydd hefyd wedi helpu i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth a pholisi a'u gwella, yn ogystal â buddsoddi, mewn cyfnodau llym.

## DYMA'R HERIAU YR YDYM BELLACH YN MYND I'R AFAEL Â HWY:

- Cynnal y gwelliannau mewn perfformiad a'u gwneud yn fwy cyson o fewn gwasanaethau a ledled Cymru.
- Gwella ystwythder y gwasanaeth a mynediad at adnoddau i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg a gofynion newidiol y gwasanaeth.
- Defnyddio ein data a'n gwybodaeth yn well.
- Gwneud strwythur llywodraethu a gweithredu cymhleth ar gyfer cydweithredu, gweithio'n effeithiol o fewn llywodraeth leol a chyda phartneriaid.

## MAE'R LLWYDDIANNAU A'R HERIAU HYN YN LLYWIO'R WELEDIGAETH SYDD GENNYM NAWR, SEF:

> Cynyddu nifer ac ystod yr aelwydydd sydd ar gael i fabwysiadu fel bod pob plentyn sydd â chynllun mabwysiadu yn cael ei leoli'n amserol.

> Sicrhau bod darpar fabwysiadwyr a mabwysiadwyr a gafodd eu cymeradwyo yn derbyn asesiad a chefnogaeth amserol o ansawdd da.

> Gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer Cymorth Mabwysiadu i ddarparu gwell mynediad at gyngor, gwybodaeth a gwasanaethau i'r rhai sydd angen cymorth ac sydd eisiau cymorth.

> Cyflawni gwelliannau cyffredinol ym mherfformiad gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru.

> Creu gwasanaeth mabwysiadu modern, ymatebol a blaengar yng Nghymru.

Ochr yn ochr â'r camau diamheuol hyn ymlaen a gwelliannau i wasanaethau, mae heriau newydd wedi dod i'r amlwg; yn enwedig o ran sicrhau bod digon o fabwysiadwyr ar gael i fodloni nifer ac anghenion plant yr ydym yn chwilio am deuluoedd ar eu cyfer.

# Y GWASANAETH YN 2018/19



**Yn ystod y flwyddyn fusnes:**

- cafodd dros 310 o blant eu lleoli yn eu cartref newydd gyda mabwysiadwyr;
- cymeradwywyd gorchymyn mabwysiadu i tua 280 o blant[1];
- roedd 338 o blant eraill, gyda'r awdurdod cyfreithiol i'w lleoli, yn aros i ddod o hyd i'w teulu newydd neu eu lleoli gyda'u teulu newydd ar ddiwedd y flwyddyn;
- Cymeradwywyd 212 o deuluoedd newydd i fabwysiadu.

Fe wnaeth y gwasanaeth weithio gyda thua 14% o'r plant oedd yn derbyn gofal yng Nghymru, y llynedd.

Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos, ar gyfer 2017/18 (y diweddaraf sydd ar gael) bod 18% o'r holl blant nad oeddent bellach yn derbyn gofal, wedi cael eu mabwysiadu.

Mae'r asiantaethau mabwysiadu sy'n rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru yn darparu ystod o wasanaethau i gefnogi'r plant hyn a'u teuluoedd, yn ogystal ag i eraill y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt.

**Yn ogystal â gweithio gyda'r plant uchod, fe wnaeth gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru hefyd:**

- ddarparu cymorth mabwysiadu i fwy na 100 o'r plant a leolwyd yn ystod y flwyddyn
- hwyluso mwy na 3,281 o drefniadau cyswllt blwch post
- darparu gwasanaeth i 268 o rieni biolegol
- derbyn 38 o geisiadau am gymorth gan frodyr a chwiorydd biolegol a pherthnasau eraill
- derbyn 226 o geisiadau am fynediad i gofnodion geni a
- derbyn 124 o geisiadau am gymorth cyfryngu/olrhain.

[1] Disgwyl cadarnhad ar ddata Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2019

# EIN BLAENORIAETHAU YN 2018/19

**BLAENORIAETH 1**

## Lleoli plant yn effeithiol

- Cadw ffocws y recriwtio ar anghenion y plant sy'n debygol o gael eu mabwysiadu
- Gweithredu'r Gofrestr Fabwysiadu newydd i Gymru a'r gronfa ddata o fabwysiadwyr

### PAM OEDD HYN YN BWYSIG?

- Roeddem am gynyddu'r ystod o gartrefi mabwysiadu sydd ar gael i ddiwallu anghenion pob plentyn sydd â chynllun mabwysiadu.
- Mae ymchwil yn dweud wrthym fod yr amser y mae plant yn ei dreulio mewn gofal a'u hoedran ar adeg y lleoliad yn effeithio ar ganlyniadau mabwysiadu. Mae gallu paru plentyn yn amserol yn dibynnu ar gael digon o fabwysiadwyr sy'n barod i ofalu am blant sydd ag anghenion amrywiol ac weithiau cymhleth.
- Mae mynd ati i baru plant a mabwysiadwyr yn y ffordd orau posib yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniad llwyddiannus ac yn gwella amseroldeb.
- Ein nod yw defnyddio'r wybodaeth orau am berfformiad gwasanaeth, ymchwil ac arfer gorau i ddatblygu prosesau mwy effeithiol ac amserlenni i gynnal arfer gorau.

### SUT GWNAETHOM NI?


Yn 311, cafodd ychydig mwy o blant eu lleoli gyda'u teuluoedd newydd eleni ac roedd tua 280 o blant eisoes mewn lleoliad a chymeradwywyd eu Gorchmynion Mabwysiadu.

Fodd bynnag, mae recriwtio digon o fabwysiadwyr yng Nghymru wedi dod yn her barhaus.

Ar yr adeg y crëwyd GMC, roeddem ni'n wynebu ystod eang o heriau, sef lleihau amserau aros i gymeradwyo mabwysiadwyr a sicrhau ein bod yn recriwtio mabwysiadwyr y byddai modd eu paru â phlant sydd ag anghenion cymhleth a fu'n aros am gyfnod hirach.

Mae ein strategaethau bellach yn cael eu llywio gan ein data, gan roi dealltwriaeth llawer gwell i ni o'r angen am leoliadau, sy'n fwy na nifer y mabwysiadwyr yr ydym yn eu cymeradwyo. Fodd bynnag, mae hyn yn cael effaith ar recriwtio; arhosodd recriwtio yn 2018/19 ar lefel debyg i'r llynedd. Mae recriwtio mabwysiadwyr yng Nghymru wedi bod yn gostwng ac mae bellach yn ôl i'r lefelau y gwelwyd cyn sefydlu'r GMC; mae'n anodd canfod yn union pam mae cymeradwyo mabwysiadwyr wedi gostwng – mae'r duedd hon, fodd bynnag, hefyd yn amlwg yn Lloegr a'r Alban.

**Mabwysiadwyr a Gymeradwywyd**




| 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 197 | 245 | 236 | 294 | 266 | 236 | 212 | 212 |

# Y stori y tu ôl i'r data


## YMHOLIADAU GAN FABWYSIADWYR AC ASESIADAU

Bu cynnydd cyffredinol mewn ymholiadau gan ddarpar fabwysiadwyr ers ffurfio'r GMC.

Fodd bynnag, mae'r darlun y tu ôl i hyn yn fwy cymhleth. Ar lefel ranbarthol mae cynnydd cyffredinol i' weld mewn dau o'r rhanbarthau mwyaf a chynhaliaeth mewn un arall, tra bod gan y ddwy asiantaeth fabwysiadu wirfoddol lefelau uwch o ymholiadau.

Yn yr asiantaethau mabwysiadu rhanbarthol a gwirfoddol, mae nifer yr ymholiadau sy'n arwain at asesiadau yn amrywio, gyda'r gwasanaethau rhanbarthol yn tueddu i weld mwy o geisiadau o ganlyniad i ymholiadau a dderbyniwyd.

### Canrannau'r Ymholiadau Cychwynnol sy'n arwain at Gychwyn Asesiad




| MW | NW | SE | VVC | WB | B | StD | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 50% | 18% | 36% | 28% | 58% | 4% | 9% | 21% |

Ch4 2018-19, yn seiliedig ar gyfartaledd o 3 mis o'r Ymchwiliad Cychwynnol i'r Asesiad yn Dechrau

Gallwn adeiladu ar yr arwyddion cynnar o lwyddiant, wrth gynyddu nifer y darpar fabwysiadwyr sy'n dod ymlaen ar adeg yr ymholiad. Mae mabwysiadwyr wedi nodi bod:

- gwybodaeth dda ar gael drwy'r wefan genedlaethol ac yn uniongyrchol gan y gwasanaethau rhanbarthol;
- mae amserau ymateb i ymholiadau yn amserol ac mae nifer o gysylltiadau cyntaf yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol a chefnogol.

Er mwyn deall hyn yn well, comisiynodd y GMC ymchwil ar sail adborth gan gwsmeriaid i ystyried y rhesymau y tu ôl i gymaint o ymholwyr nad oeddent yn mynd y tu hwnt i'r cam hwn. Mae'r canfyddiadau cyffredinol yn llywio ein gwaith. Tra'n nodi bod y mwyafrif o ymholwyr wedi nodi rhesymau personol dros beidio â bwrw ymlaen, mae argymhellion allweddol yr adroddiad hefyd yn cynnwys:


- Yr angen am negeseuon mwy cyson ar draws asiantaethau
- Mwy o hyblygrwydd o ran fframiau amser, lle mae darpar fabwysiadwyr am ohirio'u ceisiadau
- Dull mwy croesawgar a phrosesau dilynol mwy eglur i'r rhai sydd am ohirio ceisiadau.

Mae'r gwaith hwn wedi arwain at nifer o newidiadau a fydd yn cael eu gweithredu yn 2019/20:

- Rydym yn llunio canllaw arfer da i ddarparu cefnogaeth i staff sy'n delio ag ymholiadau a chamau cynnar y broses asesu. Bydd hyn yn symud i ffwrdd o asiantaethau sy'n ceisio rhoi pobl ar 'brawf' ar ddechrau eu hymholiad ac ymateb i farn rheolwyr mabwysiadu bod y negeseuon a roddir ynghylch materion fel ysmygu, incwm a meini prawf meddygol yn gyfredol, yn gywir ac yn gyson.
- Rydym wedi comisiynu Cowshed PR i gefnogi'r GMC ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol. Bydd hyn yn arwain at weithgarwch marchnata a recriwtio integredig sy'n well.
- Rydym yn darparu ymdrechion mwy penodol i gynyddu ymholiadau a chymeradwyaethau o fewn Strategaeth Recriwtio ddiwygiedig y GMC. Gan ddefnyddio technegau marchnata cydnabyddedig ein nod yw cadw pobl yn rhan o'r broses a dileu rhwystrau y mae teuluoedd yn eu hwynebu, er mwyn symud eu diddordeb yn ei flaen i weithredu ymhellach.
- Er mwyn bodloni newidiadau arfaethedig i reoliadau, rydym yn gweithredu proses dau gam i asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr tra'n lleihau'r amserlenni ar gyfer defnyddio'r Gofrestr Fabwysiadu yng Nghymru. Mae'r GMC wedi bod yn gweithio ers 2015 i greu newid yn Rheoliadau Asiantaeth Mabwysiadu (Cymru) 2003 i symleiddio a lliniaru'r broses o recriwtio ac asesu darpar fabwysiadwyr. Mae hyn wedi dwyn ffrwyth a disgwylir y bydd y rheoliadau diwygiedig yn cael eu gweithredu yn 2019/20.

Gwelwyd gwelliant yn y ffrâm amser ar gyfartaledd o'r cyfnod ymholi i'r cyfnod cymeradwyo i 9.1 mis eleni, gydag oedi gweinyddol o ran gwiriadau hanfodol yn gyfrifol am lawer a gymerodd fwy o amser. Mae'r cyfnod rhwng y cais ffurfiol gan fabwysiadwyr a'u cyfnod cymeradwyaeth yn dda, sef 6.2 mis ar gyfartaledd, sydd o fewn canllawiau a meincnod y llywodraeth. Cymeradwywyd 56% o ymgeiswyr o fewn y meincnod o 6 mis.

### Ffrâm amser ar gyfartaledd (misoedd) o'r cais ffurfiol i gyfnod cymeradwyo'r mabwysiadwyr




| | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|
| Misoedd | 6.2 | 6.1 |

Meincnod: 6 mis neu lai

## Y GALW AM LEOLIADAU

Mae nifer y gorchmynion lleoli sy'n cael eu cymeradwyo gan lysoedd Cymru bellach yn dangos amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn ar ôl cyrraedd uchafbwynt o 467 yn 2012/13; mae rhanbarthau'n adrodd bod tua 340 o orchmynion lleoli wedi'u cwblhau yn 2018/19. Mae hyn ochr yn ochr â chynnydd pellach yn nifer y plant y canfyddir gan awdurdodau lleol fel rhai y tybir bod angen lleoliad mabwysiadu arnynt, sy'n awgrymu bod gorchmynion lleoli tebyg, neu fwy ohonynt yn debygol wrth i ni fynd drwy'r flwyddyn i ddod.

Rydym yn defnyddio'r tueddiadau hyn i fwrw amcan tua'r dyfodol fel bod gan ranbarthau ac asiantaethau ddealltwriaeth glir o'r galw tebygol, er mwyn eu galluogi i gynllunio gweithgarwch ymlaen llaw i fodloni nodau recriwtio mwy uchelgeisiol.



## EFFAITH AR WEITHGAREDDAU LLEOLI

Gwelwyd fymryn o ostyngiad yn nifer y plant a oedd yn aros am leoliad ar ddiwedd y flwyddyn hon.

Mae GMC wedi llwyddo yn y gorffennol i leihau fframiau amser ar gyfartaledd i blant sy'n cael eu lleoli, ond mae hyn wedi newid eleni.


Er bod bron i hanner y plant wedi'u lleoli o fewn y meincnod o 6 mis neu lai, yn ystod 2018/19, mae'r amser rhagamcanol, ar gyfartaledd wedi cynyddu yn 2018/19 i 9.9 mis.

Mae yna nifer o ffactorau sydd wedi effeithio ar y dangosydd hwn:

- Mae rhai aelwydydd sy'n mabwysiadu wedi bod yn fwy heriol i'w canfod oherwydd nifer fach o blant ag anghenion cymhleth iawn;
- Penderfyniadau hwyr neu ceisiadau wedi gohirio lle cytunir y gall gofalwyr maeth fabwysiadu'r plant y maent yn gofalu amdanynt;
- Achosion llys hirfaith yn cynnwys apeliadau gan rieni biolegol.


Yr agwedd fwy cadarnhaol ar hyn yw bod rhanbarthau wedi bod yn fwyfwy llwyddiannus wrth leoli plant ag anghenion mwy cymhleth, fodd bynnag, fel y canfuwyd, mae hyn yn arwain at baratoadau i leoli sy'n cymryd mwy o amser.

### Mesur 7: Nifer y plant y gwnaed 'penderfyniad y dylid eu lleoli 'a gorchymyn lleoli nad ydynt wedi'u lleoli eto




| | MWW | NW | SE | VVC | WB | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015/16 | 9 | 34 | 41 | 62 | 60 | 206 |
| 2016/17 | 22 | 39 | 47 | 95 | 80 | 283 |
| 2017/18 | 34 | 46 | 76 | 117 | 77 | 350 |
| 2018/19 | 27 | 48 | 70 | 101 | 92 | 338 |

### Ffrâm amser ar gyfartaledd (misoedd) rhwng Gorchymyn i Leoli a chael eu lleoli gyda Mabwysiadwyr




| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|
| Misoedd | 8.4 | 7.9 | 9.9 |

Meincnod: 6 mis neu lai

# Beth arall sy'n ein helpu i recriwtio mabwysiadwyr a lleoli plant?

## Y GWASANAETH MABWYSIADU GYDA'N GILYDD

Mae'r asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yng Nghymru yn chwarae rôl allweddol o ran darparu gwasanaethau mabwysiadu ar draws y wlad, ac mae prosiectau arloesol diweddar fel y 'Gwasanaeth Mabwysiadu gyda'n Gilydd' yn dangos eu hymrwymiad a'u gallu i weithio'n greadigol a darparu cymorth i'r sector yn gyffredinol.

Lansiwyd Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd eleni yn 2018/19 – prosiect cydweithredol rhwng Dewi Sant a Barnardos gyda Adoption UK yng Nghymru a gyda chefnogaeth y sector statudol drwy'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Daeth yn amlwg, yn dilyn cais gan wasanaethau statudol, am ymateb creadigol i awydd ac angen a rennir, i sicrhau sefydlogrwydd i blant sy'n aros hiraf am deulu.

Cytunwyd erbyn hyn ar gytundebau mewn pedwar o'r pum gwasanaeth rhanbarthol.

Er bod nifer y plant sy'n cael eu lleoli yn annhebygol o fod yn uchel, mae'n hollbwysig bod plant ag anghenion ychwanegol yn cael y cyfle i gael blas ar fyw mewn cartrefi sefydlog a chariadus. Mae deuddeg o blant wedi'u lleoli hyd yn hyn yn y flwyddyn gyntaf, gyda tharged o leoli 25 o blant yn 2019/20.

Mae'r cynllun yn darparu arfer gorau newydd ar gyfer lleoli plant a darparu cymorth cynnar ac mae'n cael ei werthuso gan Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd. Un arwydd o'i arloesedd a'i werth yw ei fod wedi derbyn Gwobr Arloesi ICW y Sefydliad Cydweithio a Gwobr Cymeradwyaeth Uchel 1 yng nghategori budd cymdeithasol a chymunedol GO Wales.



## COFRESTR FABWYSIADU CYMRU/ COFRESTR FABWYSIADU I GYMRU

Rydym wedi gweithio'n ddyfal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod Cofrestr Mabwysiadu ddwyieithog newydd Cymru, a elwir bellach yn Gofrestr Fabwysiadu i Gymru yn barod i gael ei lansio. Er mwyn gwneud hyn mae'r Tîm Canolog wedi:

- Comisiynu partner newydd, 'Link Maker', i ddarparu gwasanaeth fodern dwyieithog a gwasanaeth cyswllt ar-lein;
- Meithrin cysylltiadau â gwasanaethau ac asiantaethau mabwysiadu i gefnogi gweithredu'r Gofrestr Fabwysiadu newydd i Gymru, codi ymwybyddiaeth ymhlith staff a sicrhau bod gwybodaeth am blant a mabwysiadwyr yn cael ei drosglwyddo;
- Cefnogi datblygu cyfres o ganllawiau cenedlaethol, sy'n amlinellu disgwyliadau o ran defnyddio'r Gofrestr;
- Briffio partneriaid, a rhanddeiliaid gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaethau Plant a Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru trwy gyhoeddi bwletinau rheolaidd.

Daeth y Gofrestr Fabwysiadu newydd i Gymru i rym ym mis Mawrth 2019 ac fe'i lansiwyd yn ffurfiol ym mis Mehefin 2019. Nod y Gofrestr yw gwella sut rydym yn cysylltu plant â darpar fabwysiadwyr. Bydd yn haws ei defnyddio ac yn fwy effeithlon ac mae'n rheoli'r mynediad i fabwysiadwyr a gymeradwywyd. Bydd hefyd yn caniatáu datblygu system 'cadw mewn cysylltiad' 'i fabwysiadwyr fel rhan o drefniadau cymorth mabwysiadu gwell.

Yn arwyddocaol, bydd pob plentyn a mabwysiadwr yn cael ei restru ar y Gofrestr yn gyflymach. Bydd yn hwyluso paru, yn cael ei rheoli ar lefel ranbarthol, ar lefel Cymru gyfan a'r DU pan fo angen. Yn ystod ei flwyddyn olaf o weithredu, fe wnaeth Cofrestr Fabwysiadu flaenorol Cymru:

- Baru 36 o blant drwy gronfa ddata'r gofrestr, cynnal Diwrnodau Cyfnewid Mabwysiadu a Diwrnod Gweithgareddau Mabwysiadu;
- Gwelwyd cynnydd yn nifer y plant a gafodd eu hatgyfeirio i'r gofrestr yn ystod y flwyddyn er bod y ffigurau diwedd blwyddyn ym Mawrth 2019 yn 293, sef 57 yn llai na'r flwyddyn flaenorol;
- Gwelwyd newidiadau ym mhroffil y plant oedd yn aros; dros 60% yn llai na 3 oed, llai o grwpiau brodyr a chwiorydd a chanran y rheiny ag anghenion ychwanegol neu gymhleth yn parhau i gynyddu;
- Fe wnaeth nifer y mabwysiadwyr a gafodd eu hatgyfeirio i'r gofrestr barhau i ostwng yn sylweddol, gyda 32 yn unig ar gael o ran chwilio am deulu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu canfod teuluoedd mewn modd rhagweithiol gyda nifer o fabwysiadwyr yn cael eu cyd-gysylltu erbyn iddynt gael eu cymeradwyo.

BLAENORIAETH 2

# Parhau i wella cymorth mabwysiadu trwy weithredu Fframwaith Cymorth Mabwysiadu'r GMC

- Cytuno ar y blaenoriaethau nesaf a chanfod cyllid
- Parhau â phethau sydd eisoes yn helpu e.e. gwella gwaith taith bywyd, gwella 'ymwybyddiaeth o fabwysiadu' mewn ysgolion a gwasanaethau iechyd, ceisio newid y gyfraith ar gyfer cymorth mabwysiadu, gwella'r hyfforddi a'r datblygu i fabwysiadwyr, dulliau cyson ledled Cymru.

## PAM?

Mae Astudiaeth Carfan Mabwysiadu Cymru gan Brifysgol Caerdydd yn dangos bod 47% o blant a leolwyd i'w mabwysiadu wedi dioddef o leiaf 4 Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) cyn iddynt gael eu lleoli. Mae hyn yn eu rhoi yn y grŵp risg uchaf o ran anawsterau nes ymlaen ym mywyd, yn unol â 14% yn unig o'r boblogaeth gyffredinol. Felly mae'n hanfodol bod cefnogaeth dda ar gael o'r dechrau, a'i fod yn hygyrch trwy gydol eu plentyndod.

Mae gan blant a fabwysiadwyd anghenion ychwanegol sy'n dod i'r amlwg ar wahanol adegau yn eu bywydau a gallant barhau tan eu bod yn oedolion. Gall y rhain gynnwys; deall eu hunaniaeth fel plant a gafodd eu mabwysiadu, pam y cawsant eu mabwysiadu, rheoli cyswllt a theimladau o golled neu alar. Mae llawer o'r rhain yn faterion sy'n unigryw i deuluoedd mabwysiadol ac mae angen cymorth priodol. Mae plant, pobl ifanc a mabwysiadwyr yn gyson yn nodi lefelau uchel o anfodlonrwydd gyda'r broses o gael help ac weithiau gydag ansawdd yr help ei hun.

Mae ymchwil hefyd yn dweud wrthym yn gyffredinol mai prin y deallir mabwysiadu a'r canlyniadau hirdymor i blant sydd wedi dioddef niwed sylweddol. Yn benodol, mae angen gwella ymwybyddiaeth mewn ysgolion, lle mae plant sydd wedi cael eu mabwysiadu yn cael eu gwahardd yn iau ac mewn niferoedd uwch na'u cyfoedion. Yn aml mae gan blant sydd wedi bod mewn gofal anghenion dysgu ychwanegol a chyfuniad mwy cymhleth o anawsterau.

Blaenoriaeth y GMC yw darparu gwasanaethau mabwysiadu uchel eu hansawdd yng Nghymru.


## CYMORTH MABWYSIADU A RHODDWYD YN 2018/19

- Roedd mwy na 3,281 o drefniadau cyswllt blwch post gweithredol ar waith (gostyngiad o gymharu â 2017/18)
- Cyfeiriwyd 819 o rieni biolegol i wasanaethau mabwysiadu yn 2018/19 (gostyngiad o gymharu â 2017/18) o'r rhain cynigiwyd gwasanaeth i 98% ohonynt
- Darparwyd gwasanaeth i 268[2] o rieni biolegol
- Derbyniwyd 38 o geisiadau am gymorth gan frodyr neu chwiorydd biolegol a pherthnasau eraill (gostyngiad o gymharu â 2017/18)
- Derbyniwyd 226 o geisiadau am fynediad at gofnodion geni, sef cynnydd ar y 205 yn 2017/18
- Derbyniwyd 124 o geisiadau am gymorth cyfryngu/olrhain, gostyngiad ar y 156 yn 2017/18.

Bu gostyngiad bach yn nifer y plant a oedd yn derbyn gwasanaeth parhaus a sefydlwyd ar yr adeg y cawsant eu lleoli, i lawr o 112 (36%) yn 2017/18 i 107 (34%). Mae hyn yn cuddio amrywiadau rhanbarthol sylweddol yn ogystal â newidiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn o fewn rhanbarthau, sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod pecynnau cymorth yn unigol.

[2] Nid oedd nifer o ranbarthau yn gallu darparu data yn ôl yr angen gan eu ALlau. Nid oedd rhanbarth ychwanegol yn gallu darparu data oherwydd bod y contractwr yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.

Canran y plant a leolwyd i'w mabwysiadu yr oedd eu cynllun cymorth mabwysiadu yn cynnwys derbyn gwasanaeth parhaus ar yr adeg y cawsant eu lleoli




| | MWW | NW | SE | VVC | WB | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016-17 | 58% | 18% | 33% | 25% | 14% | 26% |
| 2017-18 | 29% | 29% | 79% | 21% | 22% | 36% |
| 2018-19 | 43% | 13% | 89% | 20% | 7% | 34% |

Cafwyd llai o geisiadau newydd am gymorth ar ôl mabwysiadu, gyda gostyngiad mewn 2 ranbarth. Cwblhawyd 160 o asesiadau am gymorth ar ôl mabwysiadu, sy'n debyg i ffigurau blaenorol. Arweiniodd mwyafrif yr asesiadau a gwblhawyd at gymorth ymarferol neu therapiwtig i deuluoedd.




## GWAITH TAITH BYWYD

Rydym wedi parhau i weithredu a datblygu'r Fframwaith GMC newydd ar gyfer gwaith 'Taith Bywyd'.


Mae angen i blant nad ydynt yn gallu derbyn gofal gan eu teuluoedd biolegol, ddeall hanes eu teulu a'u taith unigryw. Mae gwaith taith bywyd wedi'i gynllunio i helpu plentyn wneud synnwyr o'i orffennol a deall ei sefyllfa bresennol er mwyn ei helpu i symud i'r dyfodol. Dylai gwaith taith bywyd gefnogi hunaniaeth plentyn, hyrwyddo hunan-barch, a helpu i roi ymdeimlad o berthyn, lles a chefnogi iechyd meddwl da. Mae gwefan y GMC yn cynnwys canllawiau a phecynnau cymorth cyfredol ar waith taith bywyd ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar greu pecynnau cymorth fydd ar gael i blant a phobl ifanc, gofalwyr maeth a rhieni biolegol.

Ym mis Tachwedd 2018 gwahoddwyd y GMC i gyflwyno datblygiadau'r 'Fframwaith' yng Nghymru, i gynhadledd genedlaethol Adoption UK.

Ym mis Ionawr 2019 cynhaliwyd cynhadledd yng Nghymru i lansio'r Fframwaith yn ffurfiol. Agorwyd y digwyddiad hynod lwyddiannus hwn gan Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol newydd, gyda mwy na 110 o gynrychiolwyr o bob cwr o Gymru yn mynychu, ac yn dwyn yr hyn a ddysgwyd yn ôl i'w hasiantaethau.

Oherwydd lefelau perfformiad amrywiol ledled Cymru (o 83% i 46%) mae gwelliant cyffredinol wedi gostwng ychydig. Bydd hyn yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth i'r GMC gyda phob rhanbarth yn ymrwymo i wneud gwelliannau pellach.

### Canran y plant ar eu hail adolygiad mabwysiadu sydd â deunyddiau Taith Bywyd yn eu lle




| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 92% | 79% | 92% | 83% |
| Gogledd Cymru | 44% | 25% | 46% | 46% |
| De Ddwyrain Cymru | 45% | 43% | 60% | 59% |
| Y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd | 30% | 61% | 68% | 46% |
| Bae'r Gorllewin | 55% | 30% | 58% | 57% |
| CYMRU | 49% | 45% | 62% | 56% |



Comisiynwyd ymgynghoriad â mabwysiadwyr trwy ein gwasanaeth 'Llais y Mabwysiadwr' gyda Adoption UK Cymru. Roeddem am ganfod a oedd mabwysiadwyr yn dechrau gweld gwelliannau yn y deunyddiau taith bywyd a oedd yn cael eu darparu.

Roedd tystiolaeth bod ychydig mwy o foddhad ymhlith mabwysiadwyr a oedd wedi mabwysiadu'n fwy diweddar (o fewn y 3 blynedd diwethaf), sy'n awgrymu, er bod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd o ran cyflawni'r fframwaith Taith Bywyd, bod gwelliannau'n cael eu gwneud. Awgrymodd mabwysiadwyr bod:

- Angen mwy o weithdai hyfforddi cyn paru, i baratoi mabwysiadwyr.
- Y rhieni mwyaf hyderus oedd y rhai a oedd wedi cyfarfod â'r rhieni biolegol.
- Yn gyffredinol, roedd yn well gan fabwysiadwyr gael gwybodaeth gywir ac yna gwneud y llyfr taith bywyd eu hunain.

Bydd y sylwadau hyn yn bwydo i mewn i'r prosiect gwella parhaus.

# Sut gwnaethom ni o ran ein blaenoriaethau i wella?

Rydym wedi canolbwyntio eleni ar barhau i weithredu Fframwaith Cymorth Mabwysiadu'r GMC, sy'n allweddol i ganlyniadau llwyddiannus. Roeddem wrth ein bodd pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bod yn darparu pecyn buddsoddi o £2.3m o 2019/20; bydd hyn yn ein galluogi i symud ymlaen gyda'n ffocws ar y blaenoriaethau gwella y cytunwyd arnynt ar gyfer y dyfodol agos.

## HYFFORDDIANT A DATBLYGU I FABWYSIADWYR

Rydym wedi cwblhau'r pecyn hyfforddi ôl-gymeradwyo i fabwysiadwyr. Mae hyn bellach yn cynnwys deuddeg modiwl gwahanol, sy'n darparu gwybodaeth uwch am feysydd y gofynnodd mabwysiadwyr amdanynt, fel; 'Ymlyniad a Thrawma', 'Magu pobl ifanc yn eu harddegau', 'Deall ac ymdrin ag ymddygiadau heriol' a 'Gwaith Taith Bywyd'.

- AFA Cymru a Adoption UK Cymru a arweiniodd ar y gwaith hwn. Mae'r modiwlau wedi cael eu profi'n drwyadl, a hynny'n cynnwys o fewn gwasanaethau rhanbarthol. Cânt eu lansio yn ystod 2019/20.

Rydym wedi gwella ein hyfforddiant paratoi, gyda Adoption UK Cymru ac AFA Cymru hefyd yn arwain ar y gwaith hwn, gan ddefnyddio hyfforddwyr presennol i adnewyddu ac ymestyn y cynnig paratoi.

- Bydd hyn hefyd yn cael ei lansio yn ystod 2019/20 a bydd yn cynnwys canllaw i ddarpar fabwysiadwyr yn amlinellu'r hyn y gellir ei ddisgwyl ynghyd â chynlluniwr unigol.



## GWELLA'R YMWYBYDDIAETH O FABWYSIADU YN Y MAES ADDYSG

Mae'r GMC yn darparu cymorth i'r sefydliad arweiniol Adoption UK ac yn gweithio ochr yn ochr ag ef yn y maes gwaith hwn, gyda chefnogaeth gan y Gweinidog Addysg, yn ogystal ag adnoddau o adran 'Cefnogi Dysgwyr Bregus' Llywodraeth Cymru.

Mae Adoption UK wedi parhau i gyflwyno ei raglen Cymorth Mabwysiadu Cymru - Gwneud Pethau'n Iawn i Bawb 'sy'n ymestyn ei lwyddiant blaenorol; llunio canllaw ysgol a chanllaw i rieni ar gyfer gweithio gyda phlant sy'n cael eu mabwysiadu

- Cyflawni cyfres o ddosbarthiadau meistr a gefnogir gan staff o'r gwasanaethau rhanbarthol i weithwyr proffesiynol yn y maes addysg a mabwysiadwyr. Roedd hyn yn sicrhau eu bod yn deall mabwysiadu, yr hyn mae'n ei olygu i blant a theuluoedd a sut y gallant lunio a gwella gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant sy'n cael eu mabwysiadu.
- Darparu HMS i 479 o staff addysg mewn ysgolion ledled Cymru o ran anghenion plant sy'n cael eu mabwysiadu
- Darparu 'dosbarthiadau meistr 'addysg gyda 500 o bobl yn cymryd rhan ac yn rhoi adborth hynod o gadarnhaol. Mae'r dysgu o'r gwaith hwn ar gael yn ddigidol i'w ddefnyddio gan staff yr ysgol i gefnogi plant eraill sydd wedi cael eu mabwysiadu.

Fe wnaeth y GMC gefnogi lansiad ymgyrch 'Cyfle Cyfartal' Adoption UK, yng Nghymru ym mis Mehefin 2018. Nod yr ymgyrch hon ledled y DU yw sicrhau bod plant a fabwysiadwyd yn cael yr un cyfleoedd i addysg â phlant eraill trwy godi ymwybyddiaeth ynghylch eu hanghenion penodol am gymorth ychwanegol.

Cefnogwyd y gwaith ymhellach pan ysgrifennodd Gweinidog Addysg Cymru at bob ysgol yn eu hannog i gydweithredu i gefnogi plant a gafodd eu mabwysiadu, mewn gwasanaethau addysg.

TESSA

Helpu teuluoedd sy'n mabwysiadu i dyfu gyda'i gilydd
Helping adoptive families grow together

## GWELLA YMWYBYDDIAETH O FABWYSIADU YN Y GWASANAETHAU IECHYD

Mae GMC yn elwa ar fewnbwn gan y Meddyg Dynodedig ar gyfer Tîm Diogelu Cenedlaethol y GIG a Chynghorydd Meddygol arweiniol o Ogledd Cymru i'w Grŵp Cynghori; maent yn gweithio gyda ni ar faterion yn ymwneud ag iechyd fel y mae arweinydd CAMHS Llywodraeth Cymru.

- Buom yn gweithio gyda'r cynghorwyr iechyd allweddol hyn a Practice Solutions, arbenigwyr yn y diwydiant i ddatblygu cyhoeddiad ar gyfer staff y gwasanaeth iechyd; 'Care about Adoption - Canllaw i Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol' a fydd yn cael ei defnyddio yn ystod 2019/20.

Bydd y canllaw yn galluogi staff iechyd i gyfrannu'n gadarnhaol at les plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu, a'u teuluoedd.




## MENTER NEWYDD MEWN CYMORTH

### TESSA

Gweithiodd y GMC ochr yn ochr â Adoption UK, i ddatblygu elfen Cymru, o gais llwyddiannus ledled y DU am gyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar gyfer gwasanaeth TESSA.

TESSA – dechreuwyd sefydlu gwasanaeth cymorth addysg therapiwtig i deuluoedd sy'n mabwysiadu yng Nghymru ym mis Chwefror 2019. Y bwriad yw bod y GMC yn ychwanegu at yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer TESSA trwy arian cyfatebol o'r buddsoddiad yn 2019/20. Nod y gwasanaeth yw cyflawni:

- Ffocws ar ymyrraeth gynnar a chymorth cyn gynted ag y bydd pryderon yn codi ar ôl y cyfnod ymgartrefu
- Asesiadau seicolegol proffesiynol i blant, gyda'r wybodaeth yn cael ei rhannu gyda rhieni a staff eraill sy'n darparu cymorth
- Cymorth magu plant ar ffurf 6 sesiwn therapiwtig, gan dimau sy'n cynnwys seicolegydd clinigol a rhieni sydd yn brofiadol o ran mabwysiadu (rhieni-bartneriaid)
- Cefnogaeth barhaus gan rhieni-bartneriaid.



## NEWID I GADW I FYNY Â BYW YN YR 21AIN GANRIF – CYSWLLT

Mae GMC yn ymdrechu'n barhaus i wella gwasanaethau mabwysiadu sy'n cael eu llywio gan ymchwil a phrofiadau bywyd y rhai y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt, a hynny mewn cymdeithas sy'n newid yn barhaus. Mae hyn yn golygu bod angen datblygu polisi ac arfer mabwysiadu, gan gadw angen plant am sicrwydd ac ymdeimlad o berthyn yn gadarn wrth ei galon. Cyswllt yw un o'r meysydd sy'n peri'r her fwyaf.

Er mwyn i blant a fabwysiadwyd fod yn hyderus am eu hunaniaeth, mae angen gwybodaeth arnynt am eu gorffennol. Mae hyn yn galw arnom i newid yr ymagwedd 'torri i ffwrdd yn gyfan gwbl 'a throi at fabwysiadu cyswllt blwch llythyrau a chyfnewid llythyrau'n flynyddol. Rydym am foderneiddio cyswllt er mwyn cynnal hawliau plant i sefydlogrwydd a sicrwydd, tra'n eu galluogi i wybod a deall eu hanes.

- Rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ymateb i argymhelliad gan Gomisiynydd Plant Cymru, bod y GMC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru '*i sicrhau bod hawliau cysylltu â brodyr a chwiorydd yn cael eu hystyried yn llawn yn ystod cynllunio gofal mabwysiadu*'.
- Fe wnaeth y GMC fynychu a darparu papur materion ar gyfer digwyddiad cwmpasu gydag ystyriaeth Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.
- Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o beth fyddai'n gweithio'n well o ran cyswllt â brodyr a chwiorydd, fe wnaethom gomisiynu Adoption UK Cymru ac 'After Adoption' gynt, i gynnal ymgynghoriad gyda mabwysiadwyr a phlant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu.
  - O safbwynt mabwysiadwyr, canfuwyd bod trefniadau cyswllt, y cytunwyd arnynt yn y lleoliad, yn aml yn dod yn anymarferol ac y byddai budd eang o gynyddu'r gefnogaeth i fabwysiadwyr a theuluoedd biolegol. Awgrymwyd meysydd ymarferol i'w datblygu, gan gynnwys llunio canllawiau, templedi safonedig ac ymchwil manwl i ddeall yn well yr hyn sydd orau i blant o ran cyswllt.
  - O safbwynt person ifanc, daethpwyd i'r casgliad bod cyswllt yn gadarnhaol ac y dylid ei ganiatáu a'i annog lle bo modd, gyda phobl ifanc yn dweud eu bod yn teimlo bod y gofal y maent yn ei dderbyn a'r cysylltiadau y maent yn eu gwneud, cyn eu mabwysiadu, yn rhan annatod o'u hymlyniad cynnar a dylid parhau â hwy lle y gallant.[3]

- Fe wnaethom barhau i weithio gyda phartneriaid eraill ac erbyn hyn rydym yn cydweithio gyda:
  - Voices from Care Cymru, i fod yn rhan o 'ddigwyddiad' i newid y ffordd yr ydym yn darparu cymorth gyda pherthnasoedd parhaus gyda brodyr a chwiorydd.
  - Canolfan y Gyfraith Abertawe, i lunio taflen gyngor i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu mabwysiadu..

## BETH ARALL SYDD WEDI'I GYFLAWNI?

Gwnaethom barhau i ofyn i Lywodraeth Cymru ddod â hawl i gymorth mabwysiadu, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud hyn pan fydd y cyfle'n codi.

Gwnaethom barhau i ymgysylltu â mabwysiadwyr a phlant a phobl ifanc i glywed a deall eu profiadau trwy wasanaeth Lleisiau Mabwysiadwyr a'r cyn-wasanaeth Talk Adoption. Gwnaethom hefyd ganolbwyntio ar gyd-lunio datblygiadau lle y gallem.

- Darparwyd adroddiadau Llais y Mabwysiadwr i bob un o'r pum rhanbarth a'r darparwyr trydydd sector, i'w hystyried gan eu byrddau rheoli neu gyfwerth.
- Gweithiodd y GMC gyda Adoption UK i ddatblygu adran Cymru o'u Baromedr Mabwysiadu newydd a fydd yn arolwg blynyddol i gasglu barn mabwysiadwyr. Dosbarthwyd y don gyntaf o hyn yn ystod y flwyddyn, a disgwylir adroddiad cychwynnol yn y Gwanwyn.

Yn fwy arwyddocaol, mae GMC wedi bod yn ymwneud eleni â sicrhau y gallai gwasanaeth uniongyrchol i blant a phobl ifanc barhau, yn dilyn y cyhoeddiad gan wasanaeth 'After Adoption' gynt, y byddent yn tynnu'n ôl o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru ar ôl mis Mawrth 2019.

Gwnaethom weithio'n llwyddiannus gyda Adoption UK Cymru i'w gefnogi i ddod yn ddarparwr ar gyfer y gwasanaeth hwn, fel y gallai barhau i ddarparu cefnogaeth i tua 100 o blant a phobl ifanc sydd wedi'u cofrestru. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda Adoption UK Cymru i ehangu a datblygu'r gwasanaeth gwerthfawr hwn.

[3] Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar drafodaethau strwythuredig gyda nifer fach iawn o blant, ynghyd â gwybodaeth anffurfiol a gasglwyd trwy sesiynau grŵp.

# Blaenoriaethau a Chyflawniadau Asiantaethau Mabwysiadu Rhanbarthol a Gwirfoddol




## AFA CYMRU

- Gwaith Taith Bywyd (GTB) – fe wnaeth dros 100 o bobl fynychu'r gynhadledd.
- Mae'r pecyn GTB wedi'i ehangu i gynnwys deunyddiau i rieni biolegol, pobl ifanc a gofalwyr maeth.
- Cymryd ymagwedd gydweithredol tuag at ddatblygu cyrsiau hyfforddi yn dilyn y cymeradwyo – gweithio ochr yn ochr â mabwysiadwyr a gweithwyr cymdeithasol i ddatblygu deunyddiau.

## BARNARDO'S

- Mae'r sbardun gan Barnardos a GMC o safbwynt Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau gan bobl o gefndiroedd a diwylliannau mwy amrywiol.
- Gweithio i sicrhau gwelliant yn y cyfnodau amser o Ymholiad i Gymeradwyo ac yn y pen draw Lleoli plant.

## ADOPTION UK CYMRU

Mae llawer o'n gwasanaethau'n cael eu darparu gan wirfoddolwyr sydd hefyd yn rhieni sydd wedi mabwysiadu – rhyngddynt fe wnaethant ddarparu 984 awr o gymorth i rieni eraill oedd yn mabwysiadu.

- Sefydlwyd cynllun cyfaill i fabwysiadwyr newydd o fewn y cynllun Mabwysiadu Gyda'n Gilydd.
- Aethpwyd ati i weithio gydag AFA Cymru i ddatblygu deuddeg modiwl hyfforddi i'w defnyddio gan fabwysiadwyr ar ôl y gorchymyn mabwysiadu, yn ogystal â chyfarwyddyd newydd a gwybodaeth i ddarpar fabwysiadwyr i'w defnyddio yn ystod yr hyfforddiant paratoi.
- Darparwyd hyfforddiant i bron i 500 o rieni sydd wedi mabwysiadu a HMS i 479 o staff addysg mewn ysgolion ledled Cymru ac ymatebwyd i 1,376 o gysylltiadau, sef 25% yn fwy na'r llynedd.
- Fel rhan o brosiect ledled y DU, llwyddodd Adoption UK Cymru i wneud cais i Gronfa Gymunedol y Loteri Fawr. Bydd hyn yn darparu mewnbwn therapiwtig ac addysgol i deuluoedd sy'n mabwysiadu, yn gynnar ar eu taith i fabwysiadu, er mwyn atal anawsterau rhag cronni dros y blynyddoedd nesaf.

## CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

- Llwyddwyd i wella trefniadau paratoi er mwyn lleihau'r oedi ar gyfer asesiadau mabwysiadwyr.
- Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i lwyddo i gynyddu presenoldeb mewn Digwyddiadau Gwybodaeth.
- Cynhyrchwyd ffilm fer arloesol gyda rhiant biolegol a mabwysiadwyr, a oedd yn amlygu trefniadau cyswllt cadarnhaol.

## GOGLEDD CYMRU

- Penodwyd Swyddog Cydlynu Cyswllt sy'n cynnig ymateb gyson a chefnogaeth i fabwysiadwyr a rhieni biolegol o ran cyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol.
- Aethpwyd at i weithio gyda'r arbenigwr Richard Rose, i weithredu'r Fframwaith Hanes Bywyd.
- Ehangwyd y cynllun cyfaill i fabwysiadwyr.
- Buddsoddwyd mewn cynyddu sgiliau'r Swyddog Hyfforddi – cwblhau lefel 2 seicotherapi datblygiadol Deuol ac ar hyn o bryd mae'n dilyn diploma mewn rhianta therapiwtig.

## DE DDWYRAIN CYMRU

- Buddsoddiad sylweddol i ddatblygu'r gweithlu yn cynnwys mynediad at hyfforddiant arloesol 'Cylch Diogelwch'.
- Aethpwyd ati i wella'r pecyn gwybodaeth i fabwysiadwyr.
- Aethpwyd ati i wella'r hyfforddiant paratoi i fabwysiadwyr gyda mwy o ffocws ar Fodelau Therapiwtig o fagu plant.

## CYMDEITHAS PLANT DEWI SANT

- Lansiwyd Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd yn allanol a gwnaed y lleoliad cyntaf.
- Buddsoddwyd mewn cynyddu sgiliau gweithwyr cymdeithasol o ran Theraplay a DDP.
- Derbyniwyd dwy wobr am gynllun Mabwysiadu Gyda'n Gilydd – Ennill Gwobr Arloesi Sefydliad Cydweithredu ICW a Chanmoliaeth Uchel 1 yng Ngwobrau GO Budd Cymdeithasol a Chymunedol wrth Gaffael.

## Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD

- Penodwyd Swyddog Marchnata i gynnig ymateb amserol a chyson i ymholiadau gan fabwysiadwyr a chynyddu gwybodaeth ynghylch demograffeg mabwysiadwyr yn y rhanbarth.
- Datblygwyd rôl 'hyrwyddwr' Gwaith Taith Bywyd felly'n arwain at gynnydd positif yn y maes hwn.
- Lleolwyd y nifer uchaf o blant i'w mabwysiadu ers sefydlu'r rhanbarth.

## BAE'R GORLLEWIN

- Atgyfnerthwyd gwaith ein panel mabwysiadu o ran paru, trwy gyflwyno rhestr wirio i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol fel deunyddiau taith bywyd, cynlluniau pontio ac ati ar waith.
- Aethpwyd ati i wella cyd-gynhyrchu; mae mabwysiadwyr wedi bod yn rhan o ffurflen chwarterol ar gyfer cymorth mabwysiadu a digwyddiad proffilio cyntaf llwyddiannus i helpu mabwysiadwyr a gymeradwywyd i ystyried ystod ehangach o blant sydd angen lleoliadau mabwysiadol.
- Rhoddir cymorth cynnar ychwanegol, lle mae plant ag anghenion ychwanegol yn cael eu lleoli gyda mabwysiadwyr GMBG (WBAS).



BLAENORIAETH 3

# Meddwl ymlaen

- Meddwl am y math o wasanaeth mabwysiadu yr ydym am ei weld yn y dyfodol
- Cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu'n barhaus â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau mabwysiadu
- Gweithio i wella'r fframwaith cyfreithiol, polisi a thystiolaeth sy'n effeithio ar fabwysiadu
- Annog datblygu gwell dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol



## PAM?

Crëwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i wella gwasanaethau i bawb y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan blant sy'n dod i'r amlwg i gael eu mabwysiadu yn newid yn gyflym ac mae angen parhaus i ymateb yn fwy cyson ac effeithiol yn enwedig o fewn meysydd fel recriwtio mabwysiadwyr a chymorth parhaus.

Rydym hefyd am foderneiddio'r gwasanaeth i wella'r profiad mabwysiadu i blant, pobl ifanc, a'u mabwysiadwyr yn ogystal ag eraill y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt.

## SUT GWNAETHOM NI?

Credwn fod mabwysiadu yn parhau i ddarparu canlyniadau da i blant. Rôl y GMC yw sicrhau bod gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru yn cadw i fyny â'r amgylchedd ymgysylltu byd-eang sy'n newid a'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau.

Gallwn gyfrannu at y drafodaeth barhaus am y rôl y mae mabwysiadu yn ei chwarae mewn cynllunio sefydlogrwydd ledled y wlad a byddwn yn sicr o wneud hynny. Ochr yn ochr â hyn byddwn yn ceisio parhau i wella gwasanaethau trwy gynllunio effeithiol, wedi'i lywio gan ymchwil a thystiolaeth gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Mae'r adrannau uchod yn amlinellu'r llu o bethau yr ydym wedi'u gwneud i gyflwyno a gwella gwasanaethau. Rydym hefyd wedi parhau i gymryd rhan mewn gwaith strategol a rhwydweithiau mewnol;

- Rydym wedi ystyried canlyniadau'r Adolygiad o'r Trefniadau gan y GMC, a gwblhawyd ar ein cyfer, yn annibynnol, gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus. Aethom ati i weithredu'r argymhellion a fydd yn cyfrannu at y broses rheoli lyfn ar lefel genedlaethol yn ystod y flwyddyn nesaf ochr yn ochr ag edrych ar sut y gallwn wella atebolrwydd ymhellach.



- Fe wnaethom lwyddo i sicrhau cymorth marchnata a recriwtio i gynyddu recriwtio mabwysiadwyr.
- Gwella integreiddio gwaith polisi'r GMC ar draws llywodraeth leol a sefydliadau'r trydydd sector trwy weithio ar y cyd ag AFA Cymru fel y gallwn ddylanwadu'n well ar arferion mwy cyson ac arloesol.
- Aethom ati i roi cyngor i Lywodraeth Cymru am eu newidiadau arfaethedig i reoliadau mabwysiadu yn ogystal â mewn perthynas â materion perthnasol yn ymwneud ag addysg a diogelu.
- Fe wnaethom ymgymryd â gwaith gyda'r Bwrdd Arweinyddiaeth Mabwysiadu yn Lloegr a gwasanaethau yng Nghymru i sicrhau y byddai Cymru'n aros yn unol â chynnydd yn y ffi mabwysiadu rhyngasiantaethol. Telir y rhain pan fydd lleoliad mabwysiadu yn cael ei gadarnhau a'i brynu gan asiantaeth fabwysiadu arall. Arweiniodd hyn at yr Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol yng Nghymru yn cytuno ar oedi byr i ganiatáu amser i awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnwys yr addasiad yn eu cynlluniau.
- Rhoi trefniadau amgen ar waith ar gyfer System Monitro Perfformiad y GMC pan fydd y contract presennol yn dod i ben ym mis Mehefin 2019. Comisiynwyd cyngor arbenigol, trwy weithio gydag Uned Ddata Cymru i ddatblygu manyleb gwasanaeth, a fydd yn darparu system hyblyg, hawdd ei defnyddio i wella cywirdeb a chymorth. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i ni ymuno â System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn y dyfodol.
- Darparu cymorth i ddatblygu ymarfer
  - Comisiynwyd a chyflwynwyd hyfforddiant mabwysiadu rhwng gwledydd
  - Comisiynwyd a chyflwynwyd hyfforddiant ar ôl cychwyn
  - Fe wnaethom barhau i rannu ymchwil ac arfer da ar draws y cydweithrediadau rhanbarthol a defnyddio'r gwerthusiad sy'n deillio o fentrau fel y gwasanaeth 'Mabwysiadu gyda'n Gilydd '.
  - Rhannwyd yr hyn a ddysgwyd o achosion sylweddol, yn benodol, eleni, yr adolygiad ymarfer plant gan y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant yng Nghymru, i farwolaeth plentyn a fabwysiadwyd. Gweithiodd y tîm canolog gyda'r rhanbarth mabwysiadu a byddant yn cynnal seminar ymarfer Cymru gyfan i rannu'r hyn a ddysgwyd.
- Aethpwyd ati i weithio eirioli a datblygu achos busnes, sydd wedi arwain Llywodraeth Cymru i fuddsoddi £2.3 miliwn o gyllid parhaus i wella gwasanaethau mabwysiadu.

# CYNLLUNIAU AR GYFER 2019/20 A THU HWNT


Bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwelliannau a wnaed dros bum mlynedd gyntaf y GMC; gan elwa'n fawr ar y cyllid buddsoddi newydd sydd ar gael.

Mae hyn ar ffurf £2.3m gan Lywodraeth Cymru i gwella gwasanaethau; tua £250,000 drwy Adoption UK Cymru ar gyfer TESSA gan Gronfa Cymunedau'r Loteri Fawr, yn ogystal â chymorth grant o tua £300,000 i'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol o gynllun grant Trydydd Sector Llywodraeth Cymru y cytunwyd arno ar hyn o bryd hyd at 2020.

Bydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn parhau i weithio i ddarparu gwasanaethau i niferoedd uchel o blant, pobl ifanc a theuluoedd ac eraill y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt; yn bennaf trwy wasanaethau rhanbarthol y GMC a'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol. Bydd busnes craidd y gwasanaeth yn parhau i fod, gan recriwtio mabwysiadwyr fel bod plant na allant dderbyn gofal gan eu teuluoedd eu hunain, yn gallu byw mewn cartrefi sefydlog, cariadus fel y dewis arall, gorau.

Mae cysylltiad agos rhwng gwaith y GMC a Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Faterion Plant, Llywodraeth Cymru (MAG). Mae mabwysiadu yn ymddangos ar draws y nifer o ffrydiau gwaith y fenter genedlaethol bwysig hon.

## Blaenoriaeth o ran creu gwelliannau yn 2019/20




### Lleoli mwy o blant

ecriwtio mwy o fabwysiadwyr i fodloni nifer ac anghenion y plant sy'n aros gan gynnwys defnyddio 'Mabwysiadu gyda'n Gilydd' ar gyfer plant sy'n aros hiraf

Ymgorffori'r Gofrestr Fabwysiadu newydd i Gymru er mwyn cyflymu'r broses o baru plant drwy dderbyn gwybodaeth yn gynt am blant a mabwysiadwyr yn unol â'r rheoliadau diwygiedig

### Parhau i wella cymorth mabwysiadu

Gweithredu'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu a chynlluniau buddsoddi

Parhau i godi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd

### Meddwl ymlaen

Parhau i gyd-gynhyrchu a defnyddio gwybodaeth yn dilyn yr ymgysylltu

Defnyddio data o'r system mesur perfformiad ddiwygiedig

Gweithio i wella'r fframwaith cyfreithiol, polisi a thystiolaeth sy'n effeithio ar fabwysiadu

Annog datblygu dealltwriaeth a sgiliau'r gweithlu i fodloni blaenoriaethau'r GMC

**Crëwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i wella gwasanaethau i bawb yng Nghymru y mae mabwysiadu'n effeithio arnynt.**

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2014 yn fenter arloesol ar y cyd ar gyfer cynnig gwasanaethau mabwysiadu. Daeth â gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol Cymru ynghyd i greu strwythur 3 haen sy'n cynnwys partneriaethau ar bob lefel gydag Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol Cymru, Gwasanaethau Iechyd ac Addysg ymhlith rhai eraill.

Ar lefel awdurdod lleol, mae'r holl gynghorau Cymreig yn dal i ddarparu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal gan adnabod a gweithio gyda'r plant y mae cynllun mabwysiadu yn addas iddynt.

Yn rhanbarthol, mae'r holl awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd o fewn pum cydweithrediad rhanbarthol i gynnig ystod o wasanaethau mabwysiadu. Mae gan bob cydweithrediad rhanbarthol gysylltiadau ag asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, iechyd ac addysg. Mae'r gwasanaethau a gynigir yn amrywio mewn pob cydweithrediad, ond maent oll yn cynnig swyddogaethau asiantaeth mabwysiadu i blant, recriwtio ac asesu mabwysiadwyr, cynnig cwnsela i rieni genedigol a chyngor i oedolion a fabwysiadwyd. Ar hyn o bryd, mae rhai ohonynt yn cynnig gwasanaethau cymorth mabwysiadu'n uniongyrchol, ond mae hyn yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol mewn mannau eraill.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Tîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
c/o Cyngor Dinas Caerdydd
Ystafell 409 Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd CF10 4UW

F: 029 2087 3927
E: contact@adoptcymru.com
**www.adoptcymru.com**